CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
16 Mai 2018, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, N Jones, A W Mummery, R Williams (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Davies	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod 04.04.18 Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng N Jones yn cynnig a Cyng D I Roberts yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Adolygu cyflog y Clerc** - Trafodwyd y mater cyn i'r Clerc gyrraedd (Cyng R Davies yn bresennol yn y rhan hon). Cytunwyd i codi cyflog y Clerc i £2000 y flwyddyn o Ebrill 2018, gyda adolygiad blynyddol bob mis Ionawr.
4.2	**Niweidio'r ffens rhwng 5 a 11 Bryn Ffynon** - disgwyl ymateb. Bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir ac yn anfon copi at Dafydd Rowlands, Adran Tai
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Adran Eiddo
5.1	Yswiriant a Treth y Ganolfan. Mae'r Clerc wedi derbyn gwybodaeth bydd yr yswiriant o gwmpas £150 y flwyddyn. Cytunwyd i dderbyn yswiriant y Cyngor Sir. Mae'r Cadeirydd yn disgwyl clywed am y treth.
	Cynllunio
5.2	41C270/RUR Cais llawn ar gyfer codi annedd amaethyddol ar tir cyfagos i Awelon, Rhoscefnhir - dim sylwadau
5.3	Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol i'w ddefnyddio fel man stopio dros dro (10 llecyn) ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, creu mynedfa gerbydau newydd, ffurfio mynedfa newydd i gerddwyr a phafin ynghyd â datblygiadau cysylltiedig ar dir i'r Dwyrain o Star. Cytunwyd i ailgyflwyno sylwadau blaenorol y Cyngor.
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Rhent maes chwarae, Star £93.80
7.2	Zurich Municipal Yswiriant £302.38
7.3	Rhent y Ganolfan £850.00
7.4	Costau cyfreithiol Cyngor Ynys Môn (Lês) £585.85
7.5	Costau surfewr y Cyngor Sir £75.00
7.6	The Sign Factory £216.00
	Llofnod **Cadeirydd** **06.06.18**

8	**MATERION ERAILL**
8.1	Trosglwyddo enw a cyfeiriad ar biliau y Ganolfan (dwr, trydan, nwy) i Pwyllgor y Ganolfan. Mae'r Clerc wedi cysylltu a Dwr Cymru, Flogas a SSE - trydan
8.2	Trefnu yswiriant ar y Ganolfan ac oes angen talu treth? Gweler 5.1
8.3	Cais grant am swings yn maes chwarae Star. Mae'r Clerc wedi cyflwyno cais.
8.4	Polisiau. Mae'r Cadeirydd wedi paratoi dau polisi - Polisi iaith a Polisi cyfle cyfartal a mae pawb wedi derbyn copiau. Cytunwyd i dderbyn y polisiau
8.5	Ceisiadau am y sedd wâg. Mae'r Cyngor wedi derbyn dau cais. Oherwydd nid oedd llawer o aelodau yn bresennol, cytunwyd i drafod y ceisiadau yn y cyfarfod nesaf.
8.6	Bydd y Clerc yn mynd i'r ysbyty mis nesaf am llaw-driniaeth a bydd angen amser i wella. Cytunwyd i peidio cynnal cyarfod ym mis Gorffennaf (yn lle mis Awst)
9	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **06.06.18**